| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD<br>BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 133 – Llefaru Unigol Bl.2 ac iau** |
| | **Grwndi, John Hywyn** |

Grwndi,
pam nad wyt ti'n mynd,
yn mynd fel saeth am y titw a'r robin?

Grwndi,
pam rwyt ti wedi mynd mor dew,
mor dew â draenog wedi dychryn?

A Grwndi,
pam na ddoi di ar ôl
y llinyn yn fy llaw?

Na. Dim ateb.
Dim ond dal ymlaen i molchi
pob blewyn du yn sglein.

Ac yna, fore Sadwrn,
ym masged ddillad Mam,
tri llais yn gwichian,
chwe llygad wedi cau.

A Grwndi'n gwenu'n gynnes
i ddweud,
'Wel dyma pam.'